

Cylchlythyr

March
2019

www.colwynbid.co.uk • E: info@colwynbid.co.uk • F: 01492 588374
www.facebook.com/bayofcolwyn • www.twitter.com/colwynbid

Ein Trydedd Flwyddyn

Wel, am drydedd flwyddyn gyffrous fu hi i Ardal Gwella Busnes Colwyn. Mae rhai o'r uchafbwyntiau'n cynnwys y digwyddiadau poblogaidd fel Gŵyl Pedwardegau Colwyn a ddaeth â 25,000 o ymwelwyr i Fae Colwyn, Penwythnos Môr-ladron cyntaf Llandrillo-yn-Rhos, a oedd yn hynod boblogaidd, a Gwlad y Gaeaf ym Mae Colwyn dros y Nadolig.

Rydyn ni hefyd wedi cefnogi lluo o ddigwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn, gan gynnwys Gala Haf Llandrillo-yn-Rhos, Pencampwriaethau Pysgota o'r Lan y Byd, Sioe Nadolig Arbennig Stand-up at the Seaside, Marchnad Nadolig gyntaf erioed Hen Golwyn, Gŵyl Nadolig Llandrillo-yn-Rhos a Ffair Basg Mochdre 2019. Mae'r digwyddiadau hyn wedi codi proffil Bae Colwyn fel lle gwych i ddigwyddiadau ac rydym ni'n gobeithio bod y siopwyr wedi manteisio ar y nifer uwch o gwsmeriaid!

Hysbysiad am Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2019

Dydd Mercher 11 Medi 2019 yn Theatr Colwyn ym Mae Colwyn. Ffurflenni i gael eu cyflwyno erbyn dydd Gwener 23 Awst 2019

Gŵyl Pedwardegau Bae Colwyn

Ym mis Ebrill 2018, bu i ni drefnu Gŵyl Pedwardegau fwyaf Bae Colwyn hyd yma ac roedd y digwyddiad yn ymestyn i Llandrillo-yn-Rhos. Cawsom nawdd gan Gyngor Tref Bae Colwyn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Daeth dros 25,000 o bobl i'r digwyddiad dros y penwythnos ac roedd heulwen y dydd Sul yn helpu i ddenu torf ac fe gawsant eu diddanu gan rai o'r performwyr Pedwardegau gorau. Fe gyrhaeddodd ni rownd derfynol categori Go Magnificent Crowd Puller (dros 7,000 o bobl) yng Ngwobrau Twristiaeth Go North Wales ym mis Tachwedd 2018.



Penwythnos Môr-ladron Llandrillo-yn-Rhos

Croesawodd Llandrillo-yn-Rhos eu Penwythnos Môr-ladron cyntaf ym Mehefin 2018. Roedd y tywydd yn ffafriol ac roedd lluo o bobl yno. Fe gymerodd sawl busnes ran yn y diwrnod, gan addurno eu siopau, gwisgo gwisg ffansi a chymryd rhan yn yr helpa drysor deuluol.

Fe barhaodd y gerddoriaeth drwy gydol y dydd a gyda'r nos ac fe fanteisiodd y busnesau ar nifer y rhai a ddaeth yno. Roedd tynnu rhaff ar y traeth yn uchafbwynt i'r diwrnod, ynghyd ag ymweliad gan Jack Sparrow! Roedd y cyfryngau cymdeithasol yn llawn lluniau a fideos gwych yn dangos Llandrillo-yn-Rhos ar ei orau.



Gwlad y Gaeaf Bae Colwyn

Dechreuodd tymor yr ŵyl ym Mae Colwyn wrth droi'r goleuadau ymlaen a gyda'r Farchnad Nadolig ddydd Gwener 30 Tachwedd. Roedd cynnydd i'w weld yn nifer y bobl a oedd ar y stryd unwaith eto wrth i bobl heidio yno i wrando ar yr adloniant Nadoligaidd a daeth teuluoedd i fwynhau'r adloniant am ddim, gan gynnwys y glôb eira neidio enfawr, cymeriadau Frozen ar stiltiau ac roedd Siôn Corn a'i geirw yno hefyd. Daeth cast Dick Whittington atom ni ar gyfer parêd y plant ysgol a'r teuluoedd trwy Stryd Fawr Bae Colwyn. Rydym ni'n edrych ymlaen at y Nadolig ym Mae Colwyn eleni...



Ffair Basg Mochdre -

Dros y Pasg, byddwn yn cynnal Ffair Basg Mochdre yn yr Ysgol Fabanod ym Mochdre ddydd Mercher 17 Ebrill. Mewn cyfarfod diweddar gyda'r busnesau ym Mochdre, trafodwyd y gweithgaredd Heart Radio olaf, a fydd yn cael ei gynnal ym Mochdre ym mis Ebrill 2019. Penderfynodd y busnesau y byddent yn hoffi codi arian i ysgolion ym Mochdre gan hefyd hyrwyddo busnesau a chymuned Mochdre. Wrth gyfarfod Prif Athrawes yr ysgol, fe glywsom fod yr ardal chwarae wedi'i chondemnio ac roeddent yn croesawu'r syniad i fusnesau godi arian er mwyn rhoi hwb i ddechrau codi arian ar ei chyfer. Rydyn ni'n chwilio am gyfraniadau at y raffl. Cysylltwch â Thîm yr Ardal Gwella Busnes os hoffech chi roi gwobr, os gwelwch yn dda.

Hyrwyddo Heart Radio -

Y llynedd, fe ddechreuom ni ymgyrch farchnata gyda Heart Radio i hyrwyddo Bae Colwyn, Hen Golwyn, Llandrillo-yn-Rhos a Mochdre. Roedd yn cynnwys amser ar yr awyr yn hyrwyddo pa mor unigryw oedd pob ardal, yr elfennau manwerthu, ymweliadau am y diwrnod a'r



lle ar gyfer digwyddiadau. Ynghyd ag amser i hyrwyddo ar yr awyr, roedd diwrnod gweithgareddau byw hefyd gyda Lois ac Oli o sioe frecwest Heart yn dod i'r digwyddiadau ac yn hyrwyddo'r ardal, a oedd yn cynnwys chwarae gemau, ac roedd pobl yn cael cyfle i ennill talebau a oedd ond i'w

gwawrio ym Mae Colwyn. Roedd llawer o bobl ym mhob un o'r digwyddiadau ac fe gawsant eu ffilmio a'u hyrwyddo'n dda ar wefan Heart Radio. Roedd yr hyrwyddiad hwn yno tan fis Mehefin 2019.

Llwybr Treftadaeth Llandrillo-yn-Rhos -

Mae'r 9 polyn Llwybr Treftadaeth glas sydd o amgylch Llandrillo-yn-Rhos i gyd wedi cael eu paentio'n ddiweddar ac mae'r byrddau gwybodaeth wedi'u hadnewyddu gan fod y Llwybr wedi dechrau mynd i edrych yn wael ac nid oedd posib' darllen llawer o'r wybodaeth ar y byrddau. Mae'r llwybr yn boblogaidd iawn ymysg y twristiaid yn yr ardal a gobeithio y bydd ei newydd wedd yn ei helpu i ddenu sylw. Mae llyfrynau'r Llwybr Treftadaeth ar gael i ymwelwyr yn elusen Happy Faces ar y promenâd.

Goleuadau Garlant -

Cadarnhaodd tîm Goleuadau Stryd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy bod y polion golau ar hyd ffrynt Llandrillo-yn-Rhos wedi dirywio ac nad ydynt yn gallu dal pwysau ychwanegol goleuadau garlant ar hyn o bryd. Yn dilyn cyfarfod gyda'r Tim Goleuadau Stryd a'r adran Briffyrdd, cytunwyd y byddai Ardal Gwella Busnes Colwyn yn darparu £20,000 o arian cyfatebol ar gyfer gwaith aildatblygu ar lan y môr, sy'n cynnwys gosod polion newydd ac, yn gyfnewid am hynny, byddai CBSC yn gosod polion addas a goleuadau garlant. Nid oes cynlluniau i newid y polion stryd yn Llandrillo-yn-Rhos ar hyn o bryd ac mae hyn wedi golygu nad ydym yn gallu parhau i osod y garlantau.

Cynllun Teyrngarwch Bysiau Arriva -

Mae'r cynllun gostyngiadau bellach ar waith gan fysiau Arriva. Gall rhai sy'n talu'r ardoll, eu gweithwyr a'u teulu sy'n byw ac yn gweithio ym Mae Colwyn dderbyn gostyngiad hyd at 20% ar docynnau bysiau. I gael rhagor o wybodaeth, dilynwch y ddolen

Prosiect Arwyddion Mochdre -

Yn anffodus, gwrthodwyd caniatâd cynllunio i'r arwyddion newydd ym Mochdre gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yng nghyfarfod pwyllgor cynllunio mis Medi. Mae ein hymgyngorydd arwyddion yn trafod gyda'r adran Briffyrdd ar hyn o bryd ac rydyn ni'n gobeithio y bydd y cais yn cael ei ailgyflwyno'n fuan gyda chefnogaeth Iwyr CBSC.

Arosfannau Bysiau Mochdre -

Yn fuan, bydd arosfannau bysiau Mochdre yn cael eu gweddnewid yn rhan o'n gwaith i wella agweddau gweledol yng nghanol Mochdre. Bydd dau o'r arosfannau'n cael eu newid yn gyfan gwbl a bydd y llall yn cael ei baentio. Ynghyd â'r cysgodfannau, rydyn ni ar hyn o bryd yn trafod gydag Adran yr Amgylchedd, Ffyrdd a Chyfleusterau o fewn CBSC i drafod paentio'r rheiliau a'r bocsys blodau.

Diffibrilwyr Cyhoeddus -

Rydyn ni wedi ffurfio partneriaeth gyda Gwasanaethau Ambiwylans Cymru a'r elusen leol, Achub Calon y Dyffryn, ac wedi gosod 9 Diffibrilwyr ym Mae Colwyn. Mae'r diffibrilwyr hyn yn cael eu cynnal



gan Wasanaethau Ambiwylans Cymru ac maent ar gael i'r cyhoedd drwy'r dydd, bob dydd. Os oes argyfwng, dylid ffonio 999 a bydd y gweithredwr yn rhoi'r cod i'w agor os ydynt yn credu bod angen diffibrilwyr. Mae AGB Colwyn hefyd wedi trefnu hyfforddiant adfywio'r galon a defnyddio diffibrilwyr AM DDIM ar gyfer yr holl fusnesau, gweithwyr, ffrindiau a theuluoedd ym Mae Colwyn er mwyn iddynt allu teimlo'n hyderus a chyfarwydd â'r offer. Mae mwy o

wybodaeth, gan gynnwys amseroedd, dyddiadau a lleoliadau, i'w gweld ar ein gwefan neu ar y cyfryngau cymdeithasol.

Ffrindiau'r AGB -

Ym mis Ebrill 2018, bu i ni lansio prosiect partneriaeth peilot gyda Cydweithfa Crest lle'r oedd gofalgwyr rhan amser yn cael eu cyflogi i wneud tasgau cynnal a chadw ym Mae Colwyn. Mae peth o'r gwaith cynnal a chadw a wnaed gan Ffrindiau'r AGB yn cynnwys strimio, chwynnu, codi sbwriel, glanhau strydoedd a gosod celfi stryd. Bu i ni hefyd weithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i wella gwedd blaen siopau, lle bu i Ffrindiau'r AGB baentio blaen 15 siop ym Mae Colwyn. Hyd yma, mae 26 o siopau wedi cael eu hail-baentio, dros 450 metr sgwâr o reiliau wedi'u paentio a dros 650 litr o baent wedi'i ddefnyddio ym Mae Colwyn. Mae wedi bod yn her rheoli'r prosiect ar adegau ac rydyn ni'n edrych ar brosiectau newydd ar gyfer 2019/20.

Cyllid a Chyfradd Casglu'r Ardoll

Cyfradd casglu'r ardoll yw 97.8%

Casglwyd £255,000 o'r ardoll

£23,500 o gyllid grant

Ynghyd â chyllid grant a roddwyd i AGB Colwyn, rydyn ni hefyd wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau yn 2018/19 i gyflawni prosiectau a chynnyddu buddsoddiadau ym Mae Colwyn.

Cefnogodd AGB Colwyn y cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri, sydd wedi dod â £450,000 yn ychwanegol trwy brosiect DYCHMYGU Bae Colwyn.